



Fformiwleiddio bwyd anifeiliaid maethlon

Yn yr un modd â ni, mae angen bwyd iach a maethlon ar anifeiliaid. Mae ffermwyr yn gweithio gyda thîm o arbenigwyr i sicrhau bod eu hanifeiliaid yn cael y bwyd cywir. Mae rhai ffermwyr yn tyfu bwyd i'w hanifeiliaid, gan gynnwys gwair a grown ar gyfer protein.

Pan mae anifeiliaid yn bwyta'r bwyd cywir, maen nhw'n aros yn iach ac yn hapus - ac yn cynhyrchu cig, llaeth ac wyau o ansawdd gwell i ni.



Mae gwyddonwyr a maethgwyr yn fformiwleiddio'r diet perffaith i anifeiliaid. Ar gyfer ffermydd mawr, caiff bwyd anifeiliaid ei gyflenwi bob rhyw ychydig o ddiwrnodau, ac mae'r bwyd wedi ei fformiwleiddio'n arbennig ar gyfer oed a brîd yr anifeiliaid.

Mae cafnau bwydo gyda synwryddion yn gallu adnabod anifeiliaid unigol er mwyn sicrhau bod pob anifail yn cael y swp cywir o fwyd sydd ei angen arnynt.



Trwy sicrhau bod anifeiliaid yn cael y diet cywir, gallwn sicrhau eu bod nhw'n defnyddio maetholion yn effeithlon er mwyn gostwng allyriadau Nwyon Ty Gwydr er budd y blaned.

Mae hi'n anghyfreithlon rhoi cynnyrch cig i anifeiliaid, ond maen nhw'n gallu bwyta gwastraff bwyd dynol sydd ddim yn cynnwys cig.

Yn ogystal, gall anifeiliaid droi gwair yn fwyd maethlon i bobl.

